## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (MACHYNLLETH, POWYS I FAN I'R GOGLEDD O BONT AR DDYFI, GWYNEDD) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A GWAHARDD GODDIWEDDYD) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn tra bo gwaith yn cael ei wneud i adeiladu'r bont newydd dros afon Dyfi ar gefnffordd yr A487 yn Sir Powys.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i) gosod terfyn cyflymder o naill ai 30 mya neu 20 mya, fel y bo angen, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn;

ii) gosod terfyn cyflymder o 10 mya pan fydd gwaith confoi yn digwydd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn; a

iii) gwahardd pob cerbyd, ac eithrio cerbydau brys a cherbydau ar gyfer y gwaith, rhag goddiweddyd pan fydd gwaith confoi yn digwydd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 28 Chwefror 2023 ac y byddant yn weithredol am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

### YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o'r derfynfa 30 mya bresennol ym mhen gogleddol Machynlleth, Powys, i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain hyd at bwynt 30 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r B4404 yng Ngwynedd.

## THE A487 TRUNK ROAD (MACHYNLLETH, POWYS TO THE NORTH OF DYFI BRIDGE, GWYNEDD) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS AND PROHIBITION OF OVERTAKING) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary during the construction of the new Dyfi Bridge on the A487 trunk road in the County of Powys.

The effect of the Order will be to temporarily:

i) impose either a 30 mph or 20 mph speed limit, as required, on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice;

ii) impose a 10 mph speed limit during convoy working on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice; and

iii) prohibit all vehicles, with exemption for emergency and works vehicles, from overtaking during convoy working on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice.

It is expected that the temporary restrictions and prohibition, which will be signed accordingly, will come into force at 00:01 hours on 28 February 2023 and operate for a maximum period of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

### SCHEDULE

The length of the A487 trunk road that extends from the existing 30 mph terminal point at the northern end of Machynlleth, in Powys in a general north easterly direction to a point 30 metres south of its junction with the B4404 in Gwynedd.